Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Glantwymyn**
**Heol Cemmaes**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 8LX**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Glantwymyn wedi'i lleoli tua chwe milltir o Fachynlleth, yn awdurdod lleol Powys. Mae 70 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng tair ac 11 oed. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn o dair ysgol er Medi 2014.

Mae pob disgybl yn Wyn Prydeinig, a Chymraeg yw mamiaith llawer ohonynt. Nid oes un disgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd lawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 10% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn Rhagfyr 2008. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd, â gofal dros ysgolion y ffederasiwn, er Medi 2014.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Glantwymyn yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,724 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £13,848 a'r isafswm yw £3,007. Mae Ysgol Gynradd Glantwymyn yn safle 40 allan o'r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol ar gyfer disgyblion;
- yr addysgu yn effeithiol;
- yr ysgol yn sicrhau datblygiad ysbrydol, personol a chymdeithasol a lles disgyblion yn llwyddiannus;
- y defnydd o staff cymorth a'u heffaith yn gryfder yn yr ysgol;
- yr ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal;
- yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon; a bod
- partneriaethau buddiol gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ymestynnol ar draws y cwricwlwm yn effeithiol;
- nid yw disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm; ac
- mae cynllunio gwersi yn anghyson ac nid yw'n cynnwys dilyniant priodol ym mhob pwnc a phob maes dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth newydd yn dechrau cyflwyno gwelliannau trwy systemau a mentrau newydd ac wedi rheoli newidiadau diweddar yn dda iawn;
- y llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau gweithio'n dda gyda'r pennaeth i sicrhau bod gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth;
- yr hunan arfarnu yn fanwl gywir a grymus ac wedi arwain at welliannau buddiol mewn amser byr;
- cynllun adfer gweithredol i leihau gorwariant yr ysgol; a bod
- cynllun datblygu presennol yr ysgol yn cysylltu'n dda â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau rhifedd er mwyn herio'r disgyblion yn unol â'u galluoedd

A2 Gwella safonau ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

A4 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn nodi dilyniant priodol ym mhob pwnc a phob maes dysgu

A5 Datblygu rolau strategol y tîm rheoli newydd a'r llywodraethwyr yn y systemau gwella ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd uwchlaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm ac mae eu safonau siarad a gwrando yn gadarn. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac maent yn ymateb yn hyderus i'w hathrawon a'u cyfoedion wrth drafod eu gwaith mewn grwpiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddeallus iawn wrth siarad ag oedolion a phlant eraill.

Mae medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ohonynt ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Gwnânt ddefnydd da o gliwiau llun i adnabod geiriau bob dydd ac maent yn darllen llyfrau addas yn gyson gywir. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn ei chael yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori a mynegi barn berthnasol am gynnwys y stori. Mae llawer o ddisgyblion iau yn mwynhau ail-ddweud storïau ac yn galw nifer o fanylion i gof â chywirdeb manwl, gan gynnwys cymeriadau a sefyllfaoedd arwyddocaol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Gallant ddewis testunau addas o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn gwella'u gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Gall llawer ohonynt ateb cwestiynau am y gwahanol arddulliau mewn testunau y maent yn eu darllen ac maent yn rhannu eu barn yn synhwyrol am eu hoff lyfrau ac awduron yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ystyried a thrafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn ddychmygus iawn, yn enwedig yn y Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu dadleuon a sgriptio deialog rhwng cymeriadau o chwedlau Cymru. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y disgyblion sy'n ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol ac yn defnyddio'u syniadau eu hunain yn gyson wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Nid oes digon o gynnydd yn eu defnydd o'u medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau eraill fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am ramadeg, sillafu ac atalnodi yn effeithiol wrth ymateb i heriau ieithyddol drwy thêmau penodol. Fodd bynnag, mae cynnydd y disgyblion yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn anwastad ar draws yr ysgol.

Gyda chymorth, gall pob un o'r disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen gyfrif, trefnu a didoli rhifau i 10 yn gyson gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio bondiau rhif i fyny i 20 ac yn lluosi gyda 10 yn hyderus. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth gyfrif arian, mesur a dweud yr amser.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn y cyd-destun cywir. Gall mwyafrif y disgyblion gyfrif ffracsiynau a degolion yn briodol ac mae ganddynt wybodaeth dda am werth lle. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i gyflwyno gwahanol ddata. Fodd bynnag, mae safonau rhifedd ar draws cyfnod allweddol 2 yn anghyson. Nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm yn annibynnol. Maent yn orddibynnol ar arweiniad oedolyn wrth iddynt ddewis eu strategaethau eu hunain i ddatrys problemau yn bwrpasol.

Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y dosbarth a thu allan i wersi. Maent yn gwneud cynnydd sylweddol o ran ennill medrau Cymraeg.

Yn 2014, fe wnaeth canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn yn welliant o 2012 a 2013, pan roedd llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 50% is.

Ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd hyn yn welliant o 2012 a 2013, pan roedd llythrennedd yn gyson yn y 50% is a datblygiad mathemategol yn y 50% uwch a'r 25% isaf yn ôl eu trefn.

Dros y pedair blynedd diwethaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau mewn Cymraeg, ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4), wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 25% isaf neu'r 50% is. Dros y cyfnod yma mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% isaf.

Ar y lefel 5 sy'n uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf mewn Saesneg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Yn y Gymraeg, mae'r ysgol yn wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi bod gan mwyaf yn y 25% isaf dros y pedair blynedd diwethaf. Mae gwyddoniaeth wedi amrywio'n gyson rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch dros y cyfnod yma.

## Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac yn cyflawni'n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corff trwy weithgareddau chwaraeon rheolaidd.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion ac mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol trwy waith y cyngor ysgol a thrwy gysylltiadau â'r gymuned leol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi. Maent yn wybodus wrth drafod yr angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol iawn ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol, er enghraifft wrth geisio ddatblygu'r ardaloedd chwarae a'r ardaloedd amgylcheddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i'w cymuned.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol. Mae cyfradd bresenoldeb disgyblion yn gyson agos i 95%, ac yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb ysgolion tebyg dros gyfnod.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau, gyda ffocws cadarnhaol ar sicrhau cynnydd a datblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Mae cynllunio'r gwersi o ddydd i ddydd yn effeithiol.

Mae'r cynllunio'n canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac ystod y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r systemau newydd o gynllunio wedi cael digon o effaith ar wella'r ddarpariaeth wrth ad-drefnu'r cwricwlwm. Anghyson yw manylder y cynllunio hir dymor. Nid yw'n sicrhau dilyniant priodol ym mhob pwnc a phob maes dysgu, yn cynnwys rhifedd ar draws y cwricwlwm ac ysgrifennu'n ymestynnol.

Cyfoethogwyd y profiadau dysgu o gwmpas yr ysgol ac yn yr ardaloedd awyr agored drwy weithgareddau ysgogol. Mae ymweliadau addysgol yn gwella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae gwaith cartref rheolaidd yn adeiladu'n briodol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig ar iaith lafar y disgyblion. Mae cyfleoedd amrywiol a synhwyrol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru.

Rhoddwyd sylw priodol i fyfyrio ar faterion sy'n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae'r pwyllgor eco wedi cyfrannu tuag at welliannau effeithiol mewn ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas dda rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad yn synhwyrol ac mae ganddynt ddisgwyliadau clir a chyson o'r hyn sy'n dderbyniol. Mae'r holl staff yn creu awyrgylch addysgu pwrpasol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored.

Mae bron pob gwers yn cael ei chynllunio'n effeithiol, er bod cyflwyniad ambell wers yn rhy hir.  Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir â'r disgyblion.  Ar y cyfan, mae'r tasgau'n herio disgyblion yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio yn unol â'u galluoedd yn enwedig mewn gweithgareddau rhifedd.  Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithlon a gwnânt gyfraniad cadarnhaol at y profiadau dysgu a chynnydd disgyblion.

Mae gwelliannau diweddar wedi mireinio'r broses asesu'n effeithiol.  Mae athrawon yn defnyddio asesu yn ystyrlon i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.  Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl.  Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.  Mae'r marcio'n effeithiol ac yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bwrpasol.  Maent yn nodi cyraeddiadau'r plant yn erbyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac yn nodi targedau clir ar gyfer gwella.  Maent yn cynnwys cyfleoedd priodol i rieni gynnig sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal.  Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ei chysylltiadau agos â'r gymuned.  Ceir trefniadau buddiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion.  Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ac i gynrychioli'r ysgol yn y gymuned a thu hwnt.  Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad disgyblion ac mae staff yn hyrwyddo'r rhain yn gyson ym mhob dosbarth, yn ogystal â hyrwyddo parch a sensitifrwydd tuag at bobl eraill.  Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref yn yr ysgol.  Mae'r staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar.  Caiff gwybodaeth o arsylwadau a phrofion ystafell ddosbarth ei dadansoddi'n ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth.  Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio'n llawn ar holl feysydd y cwricwlwm.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sydd ag awyrgylch teuluol ac mae'n sicrhau bod pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel.  Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae'n gryfder.  Mae'r ethos cadarnhaol yn annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch atynt, beth bynnag fo'u rhyw neu'u hil.  Mae'r ysgol yn darparu cyfle cyfartal ac mae'n gwbl gynhwysol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o'r amgylchedd ffisegol a defnyddir adeilad yr ysgol yn dda. Mae'r adnoddau chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus trwy ddefnyddio gweithgareddau difyr a chyffrous. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol fynediad i neuadd y pentref a'r cae chwarae lleol, sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae ystod eang o adnoddau defnyddiol yn amlwg ym mhob ystafell ddosbarth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn hyrwyddo cymuned ofalgar a chynhwysol ac yn canolbwyntio yn briodol ar godi safonau'r disgyblion a gwella'u lles.

Mae'r pennaeth newydd yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Ers ei benodi, mae wedi sefydlu systemau priodol ar gyfer monitro deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu, gan sicrhau gwelliannau mewn amser byr. Er mai newydd ddechrau mae nifer o strategaethau, mae'r arweinyddiaeth hyd yma wedi effeithio'n gadarn ar safonau disgyblion ymhob agwedd o'u gwaith.

Mae'r aelodau eraill o'r tîm arweinyddiaeth yn cyfrannu'n addas o ran dechrau sicrhau gwell cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol a gwella'u rôl fel arweinwyr strategol.

Mae cyfarfodydd staff yn bwrpasol, a cheir ffocws clir ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys amgylchedd mwy diogel yn yr ysgol a ffocws cyffredin ar wella deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. O dan gyfarwyddyd effeithiol y pennaeth, bu cynnydd priodol tuag at gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a datblygu'r ddarpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol. Mae llawer o lywodraethwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi'r awdurdod lleol ac yn ymweld â'r ysgol er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn dechrau datblygu eu rôl fel arweinwyr strategol a'u gallu i fonitro gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif am ei pherfformiad dros gyfnod yn fanwl gywir a grymus. Er enghraifft, nid ydynt wedi craffu ar safonau dros amser gyda digon o fanylder.

**Gwella ansawdd: Da**

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi datblygu systemau llwyddiannus i gasglu tystiolaeth er mwyn bwydo hunanarfarnu a'r cynlluniau ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth wedi llunio amserlen hunanarfarnu ddefnyddiol. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu, gan gynnwys ymgynghori â rhieni a dysgwyr, arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau'r disgyblion a dadansoddi data.

Mae'r strategaethau hyn eisoes wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, mae cynllunio'r gwersi yn llawer mwy cyson yn y pynciau lle'r oedd angen gwella ac mae ffocws clir ar godi safonau disgyblion yn y cynlluniau gwella. Mae'r tystiolaeth gyfredol yn cadarnhau bod yr addysgu yn effeithio'n uniongyrchol ar safonau disgyblion. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd amlwg ers dechrau'r tymor.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mewn amser byr, mae'r targedau wedi cael eu blaenoriaethu'n bwrpasol ac maent yn effeithio'n gadarnhaol ar weithgareddau'r ysgol gyfan. O dan arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth, mae aelodau eraill o'r staff a'r llywodraethwyr yn datblygu gwell ddealltwriaeth o ddiben a phwysigrwydd hunanarfarnu. Mae eu rôl mewn monitro gweithgareddau a gwella ansawdd ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol.

Mae'r cynllun datblygu presennol yn cynnwys ffocws pendant ar yr angen i wella safonau. Mae'n nodi'n glir y cyfrifoldebau am fonitro'r cynllun er mwyn ei roi ar waith. Mae'n cynnwys camau gweithredu cadarn ar gyfer gwella ac yn nodi targedau meintiol manwl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae'n cyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mae bron pob un o'r rhieni yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn cael eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol a'r cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud. Cânt eu cynnwys yn uniongyrchol yn nysgu eu plant, er enghraifft yn gysylltiedig â thasgau gwaith cartref.

Mae'r bartneriaeth dda gydag ysgolion eraill yn y clwstwr a'r ffederasiwn yn hyrwyddo rhannu arfer dda yn effeithiol. Mae gweithdrefnau clwstwr ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion wedi gwella'r systemau asesu yn ddiweddar. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o safonau cyrhaeddiad ac wedi helpu i sicrhau cysondeb gwell wrth asesu gwaith disgyblion.

Mae'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd wedi'i gynllunio'n dda. Mae disgyblion yn elwa o weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth agos rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod y disgyblion iau yn ymgynefino'n hyderus wrth ddechrau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau priodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r staff cymorth, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at brofiadau dysgu disgyblion.

Mae’r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion y staff addysgu trwy weithdrefnau rheoli perfformiad priodol. Mae trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Rhoddir cyfleoedd da i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant sy’n gysylltiedig â blaenoriaethau’r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn wedi datblygu eu harbenigedd a’u medrau addysgu’n effeithiol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i staff arsylwi a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol, gydag ysgolion yn eu cymuned leol a thu hwnt.

Mae’r holl ofod sydd ar gael, dan do ac yn yr awyr agored, yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae gorwariant sylweddol ar gyllid yr ysgol. Mae cynllun adfer priodol yn ei le i leihau’r ddyled dros y blynyddoedd nesaf. Mae defnydd effeithiol o’r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion anghenus.

Yng ngoleuni’r safonau a gyflawna’r ddisgyblion dros amser a gorwariant y cyllid, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662058 - Ysgol Glantwymyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 74 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 10 | 10 | 13 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 13 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 30.0 | 76.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 13 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.0 | 20.0 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 10 | 13 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 0.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662058 - Ysgol Glantwymyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 74 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 6 | 11 | 15 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 66.7 | 72.7 | 73.3 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 11 | 15 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 81.8 | 73.3 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 0.0 | 54.5 | 40.0 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 11 | 15 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 83.3 | 81.8 | 80.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 33.3 | 36.4 | 33.3 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 11 | 15 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 72.7 | 80.0 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 16.7 | 27.3 | 33.3 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 11 | 15 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 83.3 | 81.8 | 86.7 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 0.0 | 45.5 | 33.3 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 39 | 33<br>85%<br>92% | 6<br>15%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 40 | 39<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 40 | 38<br>95%<br>97% | 2<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 38 | 32<br>84%<br>96% | 6<br>16%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 39 | 38<br>97%<br>96% | 1<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 40 | 38<br>95%<br>99% | 2<br>5%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 39 | 33<br>85%<br>91% | 6<br>15%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 40 | 36<br>90%<br>95% | 4<br>10%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 38 | 11<br>29%<br>77% | 27<br>71%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 39 | 23<br>59%<br>84% | 16<br>41%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 10 | 8 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 38% | 10% | 5% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 12 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 8 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 38% | 57% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 6 | 10 | 4 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 29% | 48% | 19% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 9 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 45% | 50% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 11 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 6 | 11 | 3 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 30% | 55% | 15% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 9 | 8 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 38% | 14% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 10 | 7 | 4 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 33% | 19% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 13 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 62% | 33% | 5% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 21 | 10 | 4 | 3 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 48% | 19% | 14% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 9 | 9 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 43% | 10% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 11 | 7 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 55% | 35% | 5% | 5% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 8 | 10 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 48% | 14% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 21 | 10 | 7 | 1 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 48% | 33% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 21 | 7 | 7 | 1 | 1 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 33% | 5% | 5% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 9 | 5 | 5 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 43% | 24% | 24% | 5% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 7 | 8 | 4 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 35% | 40% | 20% | 5% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Aled Davies | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Angharad Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nigel Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.